# Gwahoddiad i Dendro

## Marchnata Cymraeg

### Cefndir

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn elusen annibynnol (rhif 1034245) a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol yn 1994 ac yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ei ymddiriedolwyr yw'r aelodau o'i Gyngor a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Rydym ni'n dosbarthu arian o'r Loteri Genedlaethol ac yn codi arian ychwanegol o wahanol ffynonellau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Ni yw'r sefydliad sy'n ariannu a datblygu celfyddydau Cymru.

### Y cyd-destun

Rydym ni wedi ymrwymo i annog rhagor o bobl i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Felly rydym ni'n cefnogi prosiectau sy'n dangos ymrwymiad cadarn i gysylltu â chynulleidfaoedd eang ac amrywiol.

Rydym ni am i gelfyddydau Cymru fod yn gyfoethog ac amrywiol i adlewyrchu ein cymunedau ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chyfranogwyr amrywiol. Ein gweledigaeth yw sector celfyddydol sy'n gynhwysol, amrywiol a bywiog. Rydym ni'n gwybod y bydd y celfyddydau yng Nghymru yn gryfach ac yn fwy cyffrous a pherthnasol o gynnwys rhagor o bobl. Hefyd rydym ni'n cydnabod grym deinamig celfyddyd gynhwysol sy'n defnyddio talentau pob aelod o'n cymdeithas.

### Y briff

Rydym ni wedi ymrwymo i ddatblygu a hyrwyddo'r celfyddydau yn y Gymraeg. Credwn fod gan bawb yr hawl i archwilio ei ddiwylliant a'i greadigrwydd drwy ei ddewis iaith a hynny'n ddefnyddiwr, yn gyfranogwr neu'n artist.

Mae marchnata drwy'r Gymraeg yn hanfodol i hyn drwy ddarparu gwybodaeth yn newis iaith y cynulleidfaoedd Cymraeg.

Rydym ni'n dymuno comisiynu darn byr o waith i asesu:

- marchnata Cymraeg cyfredol ar draws sector y celfyddydau yng Nghymru
- ai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o ymgysylltu â chynulleidfaoedd, artistiaid proffesiynol a chyfranogwyr Cymraeg

Bydd hyn yn cynnwys:

- ymchwil ddesg i’r deunydd marchnata Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd (copi caled/ar-lein/llwyfannau cyfryngau cymdeithasol)
- gweithio gyda grwpiau ac unigolion Cymraeg i gasglu barn am ddeunyddiau/gweithgareddau marchnata Cymraeg ar draws y sector
- cydgysylltu â’r sector o ran pob celfyddyd i nodi arfer dda, nodi bylchau yn y ddarpariaeth ac ystyried pa gymorth sydd ei angen
- asesu ai’r fethodoleg bresennol yw'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o ymgysylltu â chynulleidfaoedd Cymraeg

## Amserlen

Rydym ni’n rhagweld y bydd y prosiect yn dechrau yn Ionawr 2020 ac yn dod i ben cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Cyflwynwch amserlen fanwl gyda'ch cyflwyniad.

## Cyllideb

Gallwn ni dalu uchafswm o £10,000 (gan gynnwys TAW). Ni fydd arian ychwanegol ar gael, felly gwnewch yn siŵr fod holl gostau posibl y prosiect wedi'u cynnwys yn eich cyllideb wreiddiol.

## Ein cyfraniad at y prosiect

Lle bo'n briodol, byddwn ni’n helpu i gysylltu â’r sector.

## Gofynion adrodd

Cyswllt parhaus â’n swyddogion dynodedig ar y ffôn/e-bost.

## Allbynnau disgwyliedig

Byddwn ni’n disgwyl bod dwy ran i'r gwaith:

a. Ymarfer cwmpasu i farchnata Cymraeg cyfredol

b. Asesiad o'i effeithiolrwydd ac argymhellion am sut i’w wella

Dylai hyn fod ar ffurf adroddiad yn y Gymraeg a’r Saesneg. Ar ôl ei lunio, bydd yr adroddiad yn eiddo inni i’w ddefnyddio a'i ddosbarthu fel y mynnwn ni.

## Gofynion cyflwyno cynnig

E-bostiwch eich cynnig at Henry Rees (henry.rees@celf.cymru) gan fanylu ar y canlynol:

- Dull o gynnal y prosiect
- Amserlen y prosiect, gan gynnwys y dyddiad gorffen
- Manylion pwy fyddai'n gweithio ar y prosiect
- Dadansoddiad o faint o ddyddiau gwaith sydd eu hangen a'r gyfradd ddyddiol
- Ffi am waith ar y prosiect, gan gynnwys TAW

## Sgiliau gofynnol

Mae'n ddarn o waith sydd â ffocws clir ac amserlen dynn. Felly mae'r gallu i ddechrau'n gyflym a gweithio'n galed i ddiwallu ein dyddiadau cau'n bwysig y tu hwnt. Hefyd bydd arnoch angen:

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg – am fod y gwaith i asesu gweithgarwch Cymraeg, mae'n rhaid gallu siarad yr iaith
- Sgiliau cryf i reoli prosiect sydd wedi'u datblygu drwy brofiad perthnasol a chlir
- Sgiliau rhwydweithio datblygedig a gallu meithrin ystod o gysylltiadau'n gyflym
- Sgiliau cynllunio ariannol ac ysgrifennu ardderchog
- Sgiliau hwyluso trafodaeth a chynhyrchu syniadau ac atebion gyda rhanddeiliaid
- Profiad perthnasol o weithio gyda chleientiaid yng Nghymru a dealltwriaeth gynhwysfawr o gydraddoldeb, amrywiaeth a datblygu cynulleidfaoedd

Ein swyddogion fydd yn dewis y tendr llwyddiannus wrth weld pa mor dda mae'n cyd-fynd â gofynion y briff.

## Manylion y contract

Contract cyfnod penodedig fydd ar gyfer y gwaith. Dylai eich cyllideb gynnwys TAW (lle y bo'n briodol) a chostau teithio a threuliau eraill sy'n codi'n uniongyrchol o'r prosiect.

## Rhagor o wybodaeth

Gydag unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Henry Rees, Swyddog Datblygu

E-bost: henry.rees@celf.cymru

Ffôn: 01267 230338 / 07964 688797

## Dyddiad cau

5pm ddydd Gwener 31 Ionawr 2020

Ni fyddwn ni'n ystyried unrhyw gyflwyniadau hwyr neu anghyflawn.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government